

Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod priodol nesaf y
Cyfarfod Cyngor Bwrdeistref Siroi Rhondda Cynon Taf

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

Cofnodion o Gyfarfod Cyngor Bwrdeistref Siroi Rhondda Cynon Taf a gynhaliwyd
yn Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Siroi, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian,
Cwm Clydach, brynhawn Mercher, 28 Mawrth 2018.

YN BRESENNOL

Cynghorydd y Fwrdeistref Siroi M.Tegg – yn y Gadair

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Siroi

L.M.Adams	M.Forey	W.Owen
D.R.Bevan	A.S.Fox	D.Owen-Jones
H.Boggis	H.Fychan	S.Pickering
J.Bonetto	E.George	M.Powell
S.Bradwick	D.Grehan	S.Powell
J.Brencher	M.Griffiths	S.Rees-Owen
A.Calvert	J.Harries	A.Roberts
G.Caple	G.Holmes	R.Smith
A.Chapman	L.Hooper	G.Stacey
A.G.Cox	G.Hopkins	E.Stephens
A.Crimmings	G.W.Hughes	G.Thomas
J.L.Cullwick	J.James	W.Treeby
G.R.Davies	P.Jarman	R.K.Turner
J.R.Davies	G.Jones	L.Walker
A.Davies-Jones	L.Jones	M.Webber
L.De Vet	R.Lewis	G.D.G.Williams
M.Diamond	W.Lewis	J.Williams
S. Evans	C.Leyshon	T.Williams
S.M.Evans	D.Macey	C. J. Willis
M.Fidler Jones	A.Morgan	R.Yeo

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C.Bradshaw – Prif Weithredwr

Mr G.Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i
Blant

Mr C.B.Jones – Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

Mr B.Davies – Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Ariannol

Mr C.Hanagan – Cyfarwyddwr – Y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus

Ms J.Cook – Cyfarwyddwr Materion Cynllunio ac Adfywio

Mr R.Evans – Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol

Mr R.Waters – Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y
Strydoedd

Ms K.May – Pennaeth y Gwasanaethau Llywodraethol

Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod priodol nesaf y
Cyfarfod Cyngor Bwrdeistref Siroi Rhondda Cynon Taf

111 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Bwrdeistref Siroi S.Belzak, K.Morgan, S.Morgans, S.Rees, M.Weaver, E.Webster a D.H.Williams.

112 DATGAN BUDDIANNAU

PENDERFYNWYD – nodi yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau y datganiadau canlynol o fuddiant a wnaed yn y cyfarfod yn ymwneud â'r agenda:-

(a) Eitem Agenda 11 – Datganiad 2018/19 y Cyngor ar Bolisi Cyflogau

- Cynghorydd y Fwrdeistref Siroi D.R.Bevan – "Mae aelod o'm teulu yn gweithio i'r Awdurdod – mae'n fuddiant personol a bydda i'n gadael yr ystafell yn ystod trafodaeth yr eitem yma".
- Cynghorydd y Fwrdeistref Siroi P.Jarman – "Rydw i wedi derbyn gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau i siarad a phleidleisio ar bob mater yn ystod cyfnod trafod a mabwysiadu'r broses pennu cyllideb 2018/19, gan fod aelod o'r teulu yn byw gyda fi ac yn gweithio i'r Awdurdod". *Ymateb Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol i'r Cynghorydd Jarman oedd y byddai natur y gollyngiad yn cwmpasu'r datgeliad yma.*

(b) Eitem Agenda 12 – Pecynnau Ymddeol yn Gynnar o Wirfodd a Diswyddo ar gyfer Prif Swyddogion

- Cynghorydd y Fwrdeistref Siroi R.Lewis – "Mae gen i gysylltiad personol agos, a bydda i'n gadael yr ystafell yn ystod y ddadl gan ei bod yn fuddiant personol".

(c) Eitem Agenda 15(b) – Rhybudd o Gynnig

- Cynghorydd y Fwrdeistref Siroi D.R.Bevan – "Rwy'n aelod o Fwrdd Travallis".
- Cynghorydd y Fwrdeistref Siroi H.Boggis – "Rwyf wedi prynu eiddo yn y gorffennol o dan y cynllun 'Hawl i Brynu'".
- Cynghorydd y Fwrdeistref Siroi A.Crimmings – "Rwyf wedi prynu eiddo yn y gorffennol o dan y cynllun 'Hawl i Brynu'".
- Cynghorydd y Fwrdeistref Siroi G.R.Davies – "Rwy'n aelod o Gymdeithas Tai Rhondda".
- Cynghorydd y Fwrdeistref Siroi M.Griffiths – "Rwy'n aelod o Fwrdd Travallis".
- Cynghorydd y Fwrdeistref Siroi S.Pickering – "Rwy'n aelod o Fwrdd Travallis".
- Cynghorydd y Fwrdeistref Siroi E.Stephens – "Rwy'n denant mewn eiddo Trivallis".

113 CYHOEDDIADAU

(1) Roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J.Harries am longyfarch Ysgol Gynradd Gymuned y Maerdy. Hi oedd yr unig ysgol yng Nghymru i dderbyn y wobwr 'Marc Ansawdd y Gwasanaeth Adferol'. Roedd am ddiolch i'r athrawon, y disgyblion a'u rhieni am eu gwaith caled dros y tair blynedd diwethaf wrth weithio tuag at y wobwr.

(2) Roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J.Brencher am longyfarch yr athrawon a oedd yn rhan o'r Ymddiriedolaeth Rhwydwaith Partneriaeth Tramor (PONT), am ymweld ag ysgolion partner yn Uganda, ac i'r sawl a aeth i'r Gynhadledd Athrawon. Mae hyn yn cynnwys dros 100 o ysgolion ledled y Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys Ysgol Babanod Llwynceilyn, Ysgol Gynradd Gymraeg Llwynceilyn, Ysgol Uwchradd Pontypridd, Ysgol Babanod Tonpentre, Ysgol Gynradd Gwaunmeisgyn ac Ysgol Uwchradd Tonyrefail, sydd wedi'u gefeillio ag ysgolion yn rhanbarth Mbale, Uganda. Un o fanteision PONT yw bod plant yn derbyn rhaglen Addysg Fyd-eang sydd wedi'i chydabod gan Estyn.

114 DEISEBAU

Cyflwynwyd y deisebau canlynol i'r Maer gan y Cyngorwyr isod:-

(1) Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol E.Stephens, ar ran trigolion Glynrhedynog, yn gofyn i'r Cabinet ailystyried ei benderfyniad i gael gwared ar ddarpariaeth cludiant ysgol i blant sy'n byw ym Mlaenllechau a Taff Street, yn ogystal â chyflwyno darpariaeth ar gyfer disgyblion Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn-y-Forwyn.

(2) Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J.Williams, ar ran trigolion y Porth, yn gofyn bod y Cyngor yn darparu cludiant dewisol o'r cartref i'r ysgol ar gyfer disgyblion sy'n byw yn ardaloedd Birchgrove a Llwynceilyn, gan y bydd angen iddyn nhw deithio tu allan i'w cymunedau i gyrraedd yr ysgol newydd; Ysgol Gymuned y Porth.

(3) Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J.R.Davies, ar ran trigolion Pen-y-graig yn gofyn bod y cyngor yn darparu cludiant ar gyfer plant sy'n mynychu Ysgol Babanod Pen-y-graig, Ysgol Iau Pen-y-graig ac Ysgol yr Eos a fydd yn symud i Ysgol Nantgwyn ym mis Medi, 2018. Roedden nhw'n teimlo ei fod e'n bellter annheg i'w deithio (yn enwedig i blant bach 3-7 oed), yn ogystal â bod yn llwybr annogel.

(4) Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Cox, ar ran trigolion y Porth, yn gofyn bod y Cyngor gwyrddroi ei benderfyniad i dynnu'r ddarpariaeth cludiant i Ysgol Gyfun Cwm Rhondda ac Ysgol Gynradd Gymraeg Llwynceilyn. Roedden nhw'n teimlo y byddai'r penderfyniad yn cael effaith andwyol ar y nifer sy'n derbyn Addysg Cyfrwng Gymraeg yn yr ardal, oherwydd efallai fyddai teuluoedd ddim yn fodlon i'w plant deithio pellter o'r fath oherwydd pryderon diogelwch.

115 COFNODION

PENDERFYNWYD –Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor, a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2018, yn rhai cywir, yn amodol ar nodi bod y Cynghorydd M.Diamond wedi pleidleisio o blaid y cynnig mewn perthynas â Chofnod Rhif 103.

116 DATGANIADAU

(1) Roedd Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan am gofnodi ei ddiolch i'r staff a wnaeth gyfrannu a chynorthwyo yn ystod y cyfnod o dywydd garw. Roedd nifer wedi gweithio drwy'r nos a dros y penwythnos. Rhoddodd yr Arweinydd enghreifftiau lle'r aeth staff y 'tu hwnt i'r gofyn', gyda rhai aelodau o staff yn cysgu mewn cartrefi preswyl er mwyn sicrhau bod yr unigolion yn derbyn gofal, yn ogystal â staff y priffyrdd yn clirio eira oddi ar y ffyrdd er mwyn galluogi i angladdau fynd yn eu blaen.

(2) Nododd Dirprwy Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M.Webber bod Sion Pennell o'r Adran Briffyrdd wedi ennill Prentis y Flwyddyn yn ystod Noson Wobrwy Prentisiaid APSE .

117 CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR

(a) Gan Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J.Cullwick i Arweinydd y Cyngor (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan)

"A wnewch chi amlinellu pa brosesau sy'n gysylltiedig â phennu blaenoriaethau ar gyfer cyflwyno dulliau rheoli traffig, gan gynnwys cyfyngiadau parcio yng nghanol trefi ac ardaloedd preswyl ledled Rhondda Cynon Taf?"

Ymateb gan Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan

"Bydd Cynghorwyr eisoes yn effro i'r ffaith ein bod ni'n gweithredu rhaglen draffig yn yr awdurdod, ac rydyn ni'n derbyn arian gan Lywodraeth Cymru ar ben yr hyn sydd gennym ni o'n hadnoddau cyfalaf ein hunain. O fewn ein hadnoddau ni, dechreuon ni adolygiad tua phedair mlynedd yn ôl gan edrych ar gynlluniau fel parcio preswyl. Yr ardaloedd edrychon ni arnyn nhw oedd Pontypridd, Aberdâr ac Aberpennar. Tonypandy yw'r ardal nesaf i gael ei hadolygu. Rydyn ni'n parhau i dargedu'r Cyllid Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau – yn flaenorol y grant Llwybrau Diogel i'r Ysgol – ac rydyn ni hefyd yn targedu ardaloedd sy'n gysylltiedig â damweiniau, lle rhoddir ystyriaeth hefyd i'r math o gerbyd sy'n defnyddio'r ffyrdd megis cerbydau nwyddau trwm ar gyfer y mecanwaith sgorio".

Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod priodol nesaf y
Cyfarfod Cyngor Bwrdeistref Siriol Rhondda Cynon Taf

Cwestiwn Ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J.Williams

"Rydych chi'n sôn am y mecanwaith sgorio – pan fydd asesiadau annibynnol yn cael eu cynnal yn rhan o'r cynllun, ydyn nhw'n cael eu cynnal fel ymarfer bwrdd gwaith neu drwy wybodaeth leol. Mae gen i achos yn fy ward i, lle nododd asesiad annibynnol nad oes ei angen – sut y cafodd yr asesiad hwnnw ei gynnal?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan

"Fel rheol mae'n seiliedig ar ddata arolygon traffig, er enghraifft goryrru, lle mae modd inni edrych ar gofnodion Heddlu De Cymru. Yn aml iawn ymarfer bwrdd gwaith sy'n cael ei wneud, yn ogystal â gwneud llawer o waith ar lawr gwlad. Mae dau gam ymgynghori, anffurfiol ac yna statudol, cyn i ni symud ymlaen i hysbysiad cyhoeddus. Os wnewch chi roi'r wybodaeth benodol i mi o'ch ward, yna bydda i'n ymchwilio i'r mater".

(b) Gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol S.Morgans i Ddirprwy Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifainc (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol C.Leyshon)

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fenter Gofal Plant am ddim Llywodraeth Cymru? "

Noder: Doedd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol S.Morgans ddim yn bresennol yn y cyfarfod, felly cytunwyd y byddai'r Cyngorydd C.Leyshon yn cyflwyno ymateb ysgrifenedig i'r cwestiwn uchod.

(b) Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol S.Belzak i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings)

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet wneud datganiad ar gyfleusterau hamdden ledled Rhondda Cynon Taf?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A.Crimmings.

"Rydyn ni wedi gwneud cynnydd helaeth gyda'n cyfleusterau hamdden. Mae £750,000 wedi'i roi dros gyfnod o dair blynedd i wella'n cyfleusterau hamdden. Mae hyn yn ychwanegol i'r £3 miliwn a gafodd ei gytuno'n wreiddiol. Mae rhagor o bobl wedi ymuno â'r rhaglen 'Hamdden am Oes'. Mae hyn wedi cynyddu 30% ers mis Rhagfyr 2016, sy'n dangos bod y rhaglen yn llwyddiannus. Yn ogystal â hynny, rydyn ni'n annog rhagor o bobl o bob oed a gallu i ymuno, gan ein bod ni'n derbyn aelodau o 11 oed a hŷn".

Cwestiwn ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol G.Caple

"Rwy'n falch iawn i glywed bod buddsoddiad ychwanegol yn cael ei wneud, yn enwedig ym Mhwl Nofio Bronwydd a fydd yn gweld cynnydd yn nifer y defnyddwyr."

Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod priodol nesaf y
Cyfarfod Cyngor Bwrdeistref SiroI Rhondda Cynon Taf

Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref SiroI A.Crimmings

"Byddwch chi eisoes yn gwybod roedden ni'n ystyried cau Pwll Nofio Bronwydd. Rydyn ni'n gwneud gwelliannau i rai ystafelloedd newid yn ein canolfannau hamdden, ac mae hynny'n cynnwys Bronwydd. Bydd yn agor ar 7 Ebrill. Mae'r buddsoddiad ychwanegol gwerth £750,000 wedi ein galluogi i wneud gwelliannau o'r fath. Mae'r ap Hamdden am Oes hefyd yn fanteisiol i ddefnyddwyr ein canolfannau hamdden gan fod modd iddyn nhw ddefnyddio'r ap, er enghraifft, i gadw lle mewn dosbarth."

(d) Gan Gynghorydd y Fwrdeistref SiroI P.Jarman i Arweinydd y Cyngor (Cynghorydd y Fwrdeistref SiroI A.Morgan).

"A fyddech cystal â gwneud datganiad ynghylch traffig yn Nwyrain Aberpennar?"

Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref SiroI A.Morgan

"Mae yna dagfeydd ar y ffyrdd, ac rydyn ni'n aros am y ffordd gyswllt ar draws y cwm. O ran hanes y prosiect yma, blwyddyn cyn i ni ddyrannu cyllid cyfalaf, bûm yn edrych ar rifau adnabod cerbydau. Mae'n amlwg bod y ffordd gyswllt ar draws y cwm yn mynd â thraffig oddi ar y bont bresennol. Y gobaith yw bydd yr A4059 yn agor blwyddyn o fis Hydref, a byddwn ni'n edrych ar fodelu pellach yn y lleoliad hwnnw".

Cwestiwn Ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref SiroI P.Jarman

"Rwy'n cymryd eich bod chi'n effro i'r sefyllfa ofnadwy sydd ar bob un o'r chwe chyffordd sy'n ceisio defnyddio'r A4059, sef Mill Place ger yr ysgol gyfun, y cyffyrdd wrth y Neuadd Bowlio Dan Do, Seymour Street lle does dim hawl troi i'r dde ond mae pobl yn gwneud hynny beth bynnag, Troedyrhiw Road, y CAT yn ogystal â'r Strand/Mary Street, a phob un ohonyn nhw o fewn hanner milltir o'i gilydd. Byddwch chi'n cofio fy mod i wedi sôn yn flaenorol bod llawer o'm hetholwyr yn teimlo fel gwystlon oherwydd maen nhw'n aros am oes i adael y cyffyrdd. Mae rhai ohonyn nhw wedi cysylltu â chi yn uniongyrchol i nodi eu profiadau. Ym mis Ionawr, dywedoch chi y byddech chi'n gofyn i'r Adran Draffig adolygu'r materion yma, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf. Pryd caf i rywfaint o adborth pendant o'r adolygiad hynny?"

Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref SiroI A.Morgan

"Roeddwn i'n gobeithio y byddech chi wedi cael ateb gan Swyddogion, ac mae'n amlwg na chawsoch chi ateb. Bydda i'n holi am hyn yfory. Y brif broblem ar hyn o bryd yw'r gyffordd ger y Neuadd Fowlio, cyffordd Seymour Street a chyffordd Troedyrhiw. Hyd nes byddwn yn delio â mater y goleuadau hynny gan fod pawb yn ceisio mynd trwy'r goleuadau, bydd angen i ni aros tan flwyddyn i fis Hydref i weld yr effaith. Yn y tymor hwy, roedd cynlluniau ar gyfer y ffordd gyswllt ogleddol ar draws y cwm, ond roedd hynny dros 30 mlynedd yn ôl. Hyd nes y byddwn ni'n hyderus o'r prosiect presennol, yn y pen draw mae'n bosibl byddwn ni'n ystyried gosod arwyddion lle mae'r Neuadd Fowlio ar hyn o bryd, ond mae angen i ni wybod beth fydd yr effaith.

Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod priodol nesaf y
Cyfarfod Cyngor Bwrdeistref Siriol Rhondda Cynon Taf

Rydyn ni mewn sefyllfa anodd ac mae'n bosibl bydd pethau'n gwaethygu. Bydd
asesiad pellach yn cael ei gynnal ar ôl blwyddyn i fis Hydref".

**(b) Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol S.Belzak i'r Aelod o'r
Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol
A. Crimmings)**

"A wnewch chi ddatganiad am ailgylchu yn Rhondda Cynon Taf?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A.Crimmings

"Mae 64% o'n gwastraff yn cael ei ailgylchu, ac rydyn ni ymhlith y 10 Cyngor gorau
yng Nghymru. Yn ogystal â hyn, mae dros 1,000 tonn o fwyd yn cael ei hailgylchu.
"Fel cyn-gadeirydd y Pwyllgor Craffu – Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus,
Cymunedau a Ffyniant, byddwch chi'n cofio'r ymgyrch cnocio drysau gan Aelodau
o'ch Pwyllgor er mwyn annog trigolion i ailgylchu. Roedd yna hefyd sawl ymgyrch
arall yn rhoi gwybod i bobl o'r mathau o eitemau y mae modd eu hailgylchu. Bydd y
mentrau yna'n ein helpu ni i fwrw targed Llywodraeth Cymru o 70% erbyn 2024/25.
Serch hynny, efallai bydd y ffigwr yma'n cael ei adolygu, ac mae'n bosibl y bydd yn
digwydd yn gynt".

Cwestiwn ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol G.R.Davies

"Mae yna lawer o gyhoeddusrwydd yn y cyfryngau am y problemau sy'n gysylltiedig
ag ailgylchu plastig. Mae'n bwysig ein bod ni'n dod o hyd i ateb i'r broblem yma. Mae
ailgylchu yn helpu, ond dylen ni geisio peidio â defnyddio'r cynhyrchion yma ar gyfer
defnydd untro. Mae'r Cyngor yn prynu'r eitemau yma ar gyfer y Gwasanaeth Pryd-ar-
glud, ac yma yn y Siambr heno, mae yna bobl yn yfed o gwpanau plastig y bydd ond
yn cael eu defnyddio unwaith. Ydy'r Adran Gaffael wedi cael unrhyw gyfarwyddyd
ynghylch eitemau untro ac am ddefnyddio eitemau aml-ddefnydd, gan y byddai hyn
yn gam cadarnhaol ar gyfer yr amgylchedd?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A.Crimmings

"Yn y cyfarfod nesaf rhyngof i a Chadeirydd/Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu – Cynnal
Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant, bydda i'n nodi hyn ar yr
agenda."

ADRODDIAD Y PRIF WEITHREDWR

118 BARGEN DDINESIG PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD

Yn ei adroddiad, gofynnodd y Prif Weithredwr i gymeradwyo Cynllun Busnes
Cytundeb Gweithio ar y Cyd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Yn dilyn sylwadau gan y Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor, **PENDERFYNWYD**

1. Cymeradwyo a mabwysiadu Cynllun Busnes Cytundeb Gweithio ar y Cyd
drafft (Cynllun Busnes Strategol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd) fel y
dangosir yn Atodiad A i'r adroddiad;

Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod priodol nesaf y
Cyfarfod Cyngor Bwrdeistref Siriol Rhondda Cynon Taf

2. Cytuno i'w gynnwys yn Rhaglen Gyfalaf y Cyngor.

ADRODDIAD CYFARWYDDWR CYFADRAN Y GWASANAETHAU CORFFORAETHOL A RHENG FLAEN

119 STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS GAN GYNNWYS STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL A DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW AR GYFER 2018/19

Yn ei adroddiad, nododd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen fanylion y canlynol i'w hystyried gan y Cyngor:

- Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2018/2019
- Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer 2018/19
- Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys ar gyfer 2017/18 (gwirioneddol hyd yma) a 2018/19, 2019/20 a 2020/21; a'r
- Datganiad Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw

Yn dilyn ystyried a thrafod y mater, gan hynny, **PENDERFYNWYD –**

1. Cymeradwyo'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth Fuddsoddi, Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys, a Datganiad Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw fel y nodir yn yr adroddiad;
2. Rhoi pwerau dirprwyedig i'r Swyddog Adran 151 (neu yn ei absenoldeb i'r Dirprwy Swyddog Adran 151) ragori ar y terfynau sefydlog / amrywiol, er budd ariannol yr Awdurdod yn unig, ac os caiff ei ddefnyddio, bod hyn yn cael ei adrodd yng nghyfarfod nesaf y Cyngor fel y cyfeirir ato ym mharagraff 19.6 yr adroddiad.

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR – Y CABINET A CHYSYLLTIADAU CYHOEDDUS

120 CYNIGION RHEOLI DOGFENNAU

Yn ei adroddiad, cynghorodd y Cyfarwyddwr – Y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus yr Aelodau o argymhellion Pwyllgor y Gwasanaethau Llywodraethol yn ei gyfarfod ar 12 Chwefror 2018 mewn perthynas â'r Cynigion Rheoli Dogfennau yn dilyn arbrawf 'Cyfarfodydd Pwyllgor Di-Bapur' gan y Cabinet drwy ddefnyddio'r ap Modern.Gov.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD–**

1. Nodi adborth Pwyllgor y Gwasanaethau Llywodraethol ar ôl ystyried yr adroddiad Cynigion Rheoli Dogfennau ar 12 Chwefror 2018;

Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod priodol nesaf y Cyfarfod Cyngor Bwrdeistref Siriol Rhondda Cynon Taf

2. Cytuno i gefnogi estyniad pellach o'r dull di-bapur i holl Bwyllgorau'r Cyngor fel y manylir yn yr adroddiad a gyflwynwyd yn y cyfarfod heno, a'r adroddiad a ystyriwyd ym Mhwyllgor y Gwasanaethau Llywodraethol ar 12 Chwefror, 2018, gan fwrw ymlaen ag ymagwedd raddol at gyfarfodydd y Pwyllgor heb bapur yn y lle cyntaf;
3. Nodi y bydd angen newidiadau ôl-ddilydol i Gyfansoddiad y Cyngor a bod yr awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol wneud unrhyw newidiadau ôl-ddilydol.

ADRODDIAD CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL A LLYWODRAETHOL

121 PWYLLGOR SAFONAU – PENODI AELOD ANNIBYNNOL (AC AELOD ANNIBYNNOL WRTH GEFN)

Yn unol â chofnod 78(5) o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2017, adroddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol ar argymhellion y Panel Penodiadau a gyfarfu ar 20 Chwefror 2018 i gyfweid â'r ddau ymgeisydd am swyddi gwag Aelod Annibynnol y Pwyllgor Safonau (ynghyd ag aelod wrth gefn).

PENDERFYNWYD -

1. Cymeradwyo argymhelliad y Panel Penodiadau i benodi Mr David J.J.Bowen fel Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau am gyfnod o chwe blynedd gan gychwyn ar 29 Mawrth 2018;
2. Nodi y bydd angen i'r Cyngor ail-hysbysebu am swydd yr Aelod Annibynnol wrth gefn oherwydd dim ond un ymgeisydd gafodd ei argymhell gan y Panel ar gyfer y swyddi gwag; ac
3. Awdurdodi'r Swyddog Monitro i roi hysbyseb arall mewn perthynas â swydd wag yr Aelod Annibynnol wrth gefn (yn seiliedig ar y meini prawf sefydledig ar gyfer y swydd) a chytuno bod y Panel Penodiadau (fel y'i nodir ym mharagraff 4.5 yr adroddiad) yn cwrdd i ystyried ymgeiswyr am y swyddi hynny ac y dylid hysbysu'r Cyngor am ei argymhelliad ar yr adeg briodol.

ADRODDIAD AR Y CYD CYFARWYDDWR ADNODDAU DYNOL A CHYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL A LLYWODRAETHOL

122 DATGANIAD 2018/19 Y CYNGOR AR BOLISI CYFLOGAU

Yn unol ag Adran 38(1) o Ddeddf Lleoliaeth, 2011, atododd Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol eu Datganiad ar y cyd ar Bolisi Cyflogau 2018/19 y Cyngor. **PENDERFYNWYD –**

Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod priodol nesaf y
Cyfarfod Cyngor Bwrdeistref Siroi Rhondda Cynon Taf

cymeradwyo'r Datganiad ar Bolisi Cyflogau fel y dangosir yn Atodiad A i'r adroddiad.

Noder: Wedi i Gynghorydd y Fwrdeistref Siroi, D.R.Bevan, ddatgan buddiant personol yn y mater uchod yn gynharach yn y cyfarfod (Cofnod Rhif 112(a)), gadawodd e'r cyfarfod yn ystod y broses o ystyried a phleidleisio dros y mater yma.

ADRODDIAD AR Y CYD Y PRIF WEITHREDWR A'R CYFARWYDDWR MATERION ADNODDAU DYNOL

123 PECYNNAU YMDDEOL YN GYNNAR O WIRFODD A DISWYDDO AR GYFER PRIF SWYDDOGION

Yn eu hadroddiad ar y cyd, ceisiodd y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol gymeradwyaeth y Cyngor am ddau becyn diswyddo ar gyfer Prif Swyddogion yn dilyn argymhellion y Panel Ymddeol yn Gynnar o Wirfodd / Diswyddo.

PENDERFYNWYD – yn dilyn argymhellion y Panel Ymddeol yn Gynnar o Wirfodd / Diswyddo, cymeradwyo'r ddau becyn diswyddo ar gyfer Prif Swyddogion, fel y manylir yn Atodiad 1 yr adroddiad, yn unol â datganiad cymeradwy 2017/18 y Cyngor ar Bolisi Cyflogau.

Noder: Wedi i Gynghorydd y Fwrdeistref Siroi, R.Lewis, datgan buddiant personol yn y mater uchod yn gynharach yn y cyfarfod (Cyfeirio at gofnod Rhif 112(a)), gadawodd e'r cyfarfod yn ystod y broses o ystyried a phleidleisio dros y mater yma.

ADRODDIAD AR Y CYD CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL A LLYWODRAETHOL A CHYFARWYDDWR – Y CABINET A CHYSYLLTIADAU CYHOEDDUS

124 LLYWODRAETH CYMRU – DOGFEN YMGYNGHORI PAPUR GWYRDD "CRYFHAU LLYWODRAETH LEOL: CYFLAWNI DROS EIN POBL"

PENDERFYNWYD – Sefydlu dau Weithgor o'r Cabinet ac o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i ystyried y ddogfen ymgynghori a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Papur Gwyrdd – "Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni Dros Ein Pobl" er mwyn i'r Cyngor allu derbyn sylwadau gan Aelodau'r ddau Weithgor yng nghyfarfod y Cyngor 25 Ebrill, 2018 a fydd yn sail i ymateb y Cyngor i'w gyflwyno erbyn 12 Mehefin 2018.

ADRODDIAD CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL A LLYWODRAETHOL

Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod priodol nesaf y
Cyfarfod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

125 NEWID I AELODAETH Y PWYLLGOR APELIADAU / APELIADAU GWEITHWYR / APELIADAU PRIF SWYDDOGION

Yn unol â'r penderfyniad a gymerwyd yng Nghofnod Rhif 2(2.2) yng nghyfarfod y
Cyngor ar 17 Mai 2017, adroddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a
Llywodraethol ei fod wedi dod i wybod bod y Grŵp Ceidwadol wedi newid ei
aelodaeth i'r Pwyllgor Apeliadau / Apeliadau Gweithwyr / Apeliadau Prif Swyddogion.
Felly, **PENDERFYNWYD** – nodi bod Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J.James i'w
enwebu i gymryd lle Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol K.L.Jones ar y Pwyllgor
Apeliadau / Apeliadau Gweithwyr / Apeliadau Prif Swyddogion.

126 RHYBUDD O GYNNIG

Trafodwyd y Rhybudd o Gynnig canlynol yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol
A.Morgan, M.Webber, L.M.Adams, R.Bevan, H.Boggis, J.Bonetto, S.Bradwick,
J.Brencher, A.Calvert, G.Caple, A.Crimmings, A.Davies-Jones, L.De Vet, J.Elliott,
S.Evans, F.Fidler Jones, M.Forey, A.Fox, E.George, M.Griffiths, J.Harries,
G.Holmes, G.Hopkins, G.W.Hughes, G.Jones, R.Lewis, W.Lewis, C.Leyshon,
S.Morgans, M.Norris, D.Owen-Jones, S.Pickering, S.Powderhill, S.Powell, S.Rees,
A.Roberts, J.Rosser, R.Smith, G.Stacey, M.Tegg, G.Thomas, W.Treeby, R.K.Turner,
D.Williams, T.Williams, C.J.Willis a R.Yeo

“Mae'r Cyngor yma'n ymrwymo i gefnogi Ymrwymiad Ynni Glân UK100, ac mae'n
cymryd camau priodol tuag at fod yn Awdurdod sy'n gwbl gyfrifol yn amgylcheddol,
erbyn 2050.

Mae'r Cyngor yma'n cydnabod:

- Yr ymrwymïadau hanesyddol a wnaed yng Nghynhadledd 2015 y
Cenhedloedd Unedig ym Mharis ar Newid yn yr Hinsawdd 39/5000
tuag at ddyfodol ynni adnewyddadwy;
- Ein cyfrifoldeb ni i helpu i sicrhau dyfodol cynaliadwy ar gyfer ein
trigolion, ac mewn perthynas ag effeithiau byd-eang i'r newid yn yr
hinsawdd;
- Bod llygredd aer yn cynyddu'r perygl o ganser yr ysgyfaint, gall
waethygu cyflyrau yr ysgyfaint presennol ac atal datblygiad ysgyfaint
plant;
- Fod gweithredu hinsawdd ddim yn atalydd twf economaidd ond yn
hytrach yn ffactor sy'n ei yrru yn ei flaen. Mae buddion datblygu
diwydiannau gwyrdd yn cynnwys y potensial i fanteisio ar amcanion
Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, wrth greu cyflogaeth â
thâl da, sy'n gofyn am sgiliau da, yn lleol, yn rhanbarthol ac yn
genedlaethol; gwell iechyd a lles ac arbedion ariannol i drigolion a
busnesau yn y tymor byr a'r tymor hirach.

Yng ngoleuni hyn, mae'r Cyngor yma'n penderfynu felly:

Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod priodol nesaf y
Cyfarfod Cyngor Bwrdeistref Siroi Rhondda Cynon Taf

- Cydweddu uchelgais Cytundeb UK100 trwy addo i gyflawni ynni glân o 100% ar draws ystod lawn o swyddogaethau Cyngor Rhondda Cynon Taf erbyn 2050;
- Gweithio mewn partneriaeth â'n trigolion a'n cymuned fusnes i gyflawni yn erbyn yr ymrwymiadau a wnaed yn genedlaethol ac yn rhyngwladol yn Uwchgynhadledd Paris 2015;
- Troi'r ymrwymiadau yma'n realiti trwy ddatblygu 'map llwybr' i ddyfodol cynaliadwy, gan weithio gyda busnesau lleol, cymunedau addysgol a phreswyl yn rhan o ymagwedd integredig tuag at ddyfodol cynaliadwy ar y cyd".

PENDERFYNWYD – mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig.

127 RHEOL GWEITHDREFN 8 Y CYNGOR (HYD Y CYFARFOD)

Hyd at y fan yma yn y cyfarfod, **PENDERFYNWYD** parhau â'r cyfarfod yn unol â Rheol Gweithdrefn 8 y Cyngor er mwyn trafod gweddill yr eitem ar yr agenda a pharhau â busnes y Cyngor.

128 RHYBUDD O GYNNIG

Trafodwyd y Rhybudd o Gynnig canlynol sydd wedi'i gyflwyno yn enwau'r Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol J. James, L. Hooper, M. Diamond a K. L. Jones:-

“Mae'r Cyngor yma'n anghytuno'n gryf â phenderfyniad Llywodraeth Lafur Cymru, gyda chefnogaeth Plaid Cymru, i dynnu'r cynllun Hawl i Brynu oddi wrth denantiaid tai cymdeithasol ledled Cymru.

Ers ei gyflwyno yn 1981 gan y Llywodraeth Geidwadol ar y pryd, mae'r cynllun Hawl i Brynu wedi caniatáu i oddeutu 130,000 o bobl brynu eu cartrefi cyngor / cymdeithas dai ledled Cymru. Mae wedi rhoi'r sefydlogrwydd a'r sicrwydd sy'n gysylltiedig â pherchen ar gartref i filoedd o deuluoedd. Yn ogystal â hyn, mae wedi bod yn gyfrwng ar gyfer symudedd cymdeithasol.

Cred y Cyngor yma yw waeth beth fo'ch cefndir neu ble rydych chi'n byw, dylech chi gael cyfle i berchen ar eich cartref eich hun. Rydyn ni'n gofidio ynglŷn â'r cam yn ôl yma gan Lywodraeth Cymru, sy'n dangos ei dyheadau isel ar gyfer tenantiaid tai cymdeithasol yn Rhondda Cynon Taf a ledled Cymru gyfan".

Yn dilyn trafodaeth hir, **PENDERFYNWYD** peidio â mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig.

Noder: Roedd yr Aelodau canlynol yn dymuno cofnodi eu bod nhw wedi pleidleisio yn erbyn y Rhybudd o Gynnig uchod:-

Cyngorwyr y Fwrdeistref Sirol L.M.Adams, D.R.Bevan, H.Boggis, J.Bonetto, S.A.Bradwick, J.Brencher, A.Calvert, G.Caple, A.Chapman, A.G.Cox, A.Crimmings, J.L.Cullwick, G.R.Davies, A.Davies-Jones, L.De Vet, S.M.Evans, M.Fidler Jones, M.Forey, A.S.Adams, H.Fychan, E.George, M.Griffiths, J.Harries, G.E.Hopkins,

Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod priodol nesaf y
Cyfarfod Cyngor Bwrdeistref Siroi Rhondda Cynon Taf

G.W.Hughes, P.Jarman, G.Jones, L.Jones, R.Lewis, W.Lewis, C.Leyshon, D.Macey,
A.Morgan, D.Owen-Jones, S.Pickering, S.M.Powell, S.Rees-Owen, A.Roberts,
R.Smith, E.Stephens, M.Tegg, G.Thomas, W.Treeby, M.Webber, J.Williams,
T.Williams ac R.Yeo.

Nodwyd Pellach: Roedd Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J.James ac L.Hooper yn
dymuno cofnodi eu bod nhw wedi pleidleisio o blaid y Rhybudd o Gynnig uchod, a
bod Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol M.Powell ac L.Walker yn dymuno cofnodi eu bod
nhw wedi ymatal rhag pleidleisio.

**M.TEGG
MAER**

Daeth y cyfarfod i ben am 8.03pm.

Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod priodol nesaf y
Cyfarfod Cyngor Bwrdeistref Siriol Rhondda Cynon Taf